

# Rahab a’r ysbïwyr

www.lambsongs.co.nz   Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams)   Lluniau Richard Gunther




Bu farw Moses a daeth Josua yn arweinydd newydd plant Israel ac arweiniodd nhw i mewn i’r wlad roedd Duw wedi ei haddo iddynt.




Roedd yn amser i fynd i mewn i’r wlad roedd Duw wedi ei haddo i blant Israel. Anfonodd Josua ddau ysbïwr i archwilio dinas Jericho er mwyn gweld pa mor gryf oedd eu byddin yno.



Fe wnaeth y ddau ysbïwr smalio mai ymwelwyr oedden nhw, ond mewn gwirionedd roedden nhw’n edrych i weld pa mor gryf oedd y waliau a faint o filwyr fyddai angen i blant Israel eu hymladd.



Ond fe wnaeth rhywun adnabod y dynion a mynd i ddweud wrth y brenin mai ysbïwyr oedden nhw a’u bod yn aros yng nghartref Rahab, oedd yn byw yn agos i un o’r waliau. Anfonodd y brenin filwyr i chwilio amdanyn nhw.



Roedd Rahab yn gwybod fod Duw wedi achub plant Israel rhag y Brenin Pharo a bod Duw yn bwerus ac yn gryf. Cyn i’r milwyr gyrraedd cuddiodd hi’r ddau ysbïwr.



“Cuddiwch yn y fan yma ar y to, o dan y llin hyn rydw i wedi eu sychu. Pan fydd Duw yn rhoi’r ddinas hon i chi, cofiwch achub fy nheulu,” meddai Rahab.



Chwiliodd y milwyr ymhob twll a chornel o’r tŷ ond wnaethon nhw ddim dod o hyd i’r ddau ysbïwr. Mae’n rhaid eu bod wedi dianc meddyliodd y milwyr ac aethant i’w hymlid.



Y noson honno gollyngodd Rahab y ddau ddyn yn ofalus â rhaff tu allan i waliau’r ddinas. “Cofia adael cortyn coch yn hongian allan o dy ffenest ac fe gofiwn ni dy achub,” meddai’r ysbïwyr wrth Rahab.